# Cyfarfod Cyngor Tref Rhuddlan

Annwyl Gynghorydd 3 Ionawr 2025

Rwyf yn eich galw trwy hyn i fynychu cyfarfod Hybrid* Cyngor Tref Rhuddlan a gynhelir nos Iau, 9 Ionawr 2025 am 7pm. Dylai aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno ymuno drwy Zoom roi gwybod i Glerc y Dref erbyn 4pm ar 9 Ionawr fel bod modd gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod yn Hwb Rhuddlan hefyd. *_Gellir ymuno drwy Zoom neu ddod i'r cyfarfod yn_ **_Hwb Rhuddlan, Clos David Owen, Rhuddlan LL18 2UJ_**.

**Agenda**

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgan Buddiant * Gweler tudalen 2**
3. **Materion Brys fel y'u Cytunwyd gan y Cadeirydd**
4. **Materion yr Heddlu** Derbyn adroddiad troseddu
5. **Cofnodion**:
    a. Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyngor y Dref a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2025
    b. Cymeradwyo cofnodion unrhyw gyfarfodydd Pwyllgor neu Weithgor a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf
6. **Adroddiad cynnydd ar sail y cofnodion**
7. **Adroddiadan gan:**
    a. Y Maer a'r Dirprwy Faer
    b. Clerc y Dref – gohebiaeth ac adroddiad am brosiectau
8. **Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir** – derbyn yr adroddiadau
9. **Cynllunio**
10. **Y Gyllideb a Materion Ariannol**
    a. Cytuno ar gyllideb 2025/2026 a'r Praesept cysylltiedig
    b. Ceisiadau am grantiau
    c. Cymeradwyo'r rhestr o daliadau sy'n ddyledus
11. **Materion yn ymwneud â'r Brif Bipell Garthion** – i'w trafod
12. **Materion Cymunedol**

**Rhan 2**. Cau allan y wasg a'r cyhoedd. Yn rhinwedd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'r wasg a'r cyhoedd yn cael eu cau allan o drafodaethau ar y materion canlynol ar y sail y byddai eu datgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**:
    - Cyfarfod llawn y cyngor wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 13 Chwefror 2025

_Steve Wilson –_ Clerc y Dref 07775 673706 clerk@rhuddlantowncouncil.gov.uk

***Datgan Buddiant**

**Buddiant personol** – Os oes gennych fuddiant personol yn unrhyw fater yn ymwneud â'ch Cyngor, mae'n rhaid i chi ddatgelu'r buddiant a natur y buddiant cyn cymryd rhan yn unrhyw drafodion cysylltiedig.

**Buddiant rhagfarnus** – Mae'n rhaid i chi ofyn i chi eich hun a fyddai aelod o'r cyhoedd, petai'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn credu bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o niweidio neu ragfarnu eich barn. Mewn geiriau eraill, rhaid ystyried bod y buddiant yn debygol o niweidio neu amharu ar eich gallu i ddod i benderfyniad er budd y cyhoedd. Rhaid datgan hyn cyn y trafodir yr eitem a bydd disgwyl i chi adael yr ystafell a pheidio â chymryd rhan yn yr eitem.

Yn y ddau achos uchod, mae angen i chi lenwi'r ffurflen a roddir i chi gan y Clerc a bydd yn ymddangos ar gofrestr buddiannau aelodau ar wefan Cyngor Tref Rhuddlan.